CYMWYSTERAU CYMRU

Pwyllgor Rheoleiddio Polisi a Goruchwylio Safonau

Cylch Gorchwyl

Pwrpas

1. Pwrpas y pwyllgor hwn yw ystyried a darparu argymhellion i'r sefydliad ar faterion sy'n codi o ddull rheoleiddio a gweithgarwch Cymwysterau Cymru.

2. Rhaid i'w argymhellion gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd cyn cymryd unrhyw gamau, ac eithrio'r rhai a amlinellir yn adran 4 - Awdurdod Dirprwyedig.

3. Pan fydd materion rheoleiddio'n codi sy'n gofyn am sylw penodol, bydd aelodaeth briodol yn cael ei chynnull i ymdrin â hynny fesul achos.

Rôl

4. Rôl y Pwyllgor Rheoleiddio Polisi a Goruchwylio Safonau yw:

   - goruchwylio'r broses o ddyfarnu cymwysterau – gan gynnwys gwybodaeth weithredol (e.e. cofrestriadau, risgiau, adrodd ar ganlyniadau, ac ati) a materion polisi fel y dull dyfarnu a gosod safonau;
   - darparu bwrdd seinio ar gyfer datblygu polisi rheoleiddio neu gymwysterau perthnasol;
   - darparu canllawiau ac argymhellion mewn perthynas â dull rheoleiddio, fframwaith a pholisïau;
   - adolygu priodoldeb ac effeithiolrwydd gweithgarwch rheoleiddio, gan barhau i oruchwylio'r baich rheoleiddio mewn perthynas ag egwyddorion rheoleiddio da ac effaith camau rheoleiddio ar gyrff dyfarnu;
   - goruchwylio perthynas â rheoleiddwyr cymwysterau eraill;
   - ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'w argymhellion mewn perthynas ag anghydfodau rheoleiddio;
   - darparu bwrdd seinio ar gyfer prosiectau ymchwil perthnasol;
   - monitro rheolaeth risg sy'n ymwneud â gweithgarwch rheoleiddio a diwygio;
   - goruchwylio'r gwaith o fonitro cyrff dyfarnu sy'n peri risg uchel i'r system gymwysterau yng Nghymru

Awdurdod Dirprwyedig

5. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r hawl i gymeradwyo'r polisïau Rheolieddio canlynol i'r Pwyllgor Rheoleiddio Polisi a Goruchwylio Safonau:

   - Polisi ar gymeradwyo Cymwysterau nad ydynt yn Flaenoriaeth
   - Polisïau ar orfodi
   - Polisi/au ar ymdrin â chwynion (ac eithrio cwynion corfforaethol)

   Gellir nodi adolygiadau polisi nad ydynt yn achosi newid sylweddol ac nid o reidrwydd eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo.

6. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Rheoleiddio Polisi a Goruchwylio Safonau yr hawl i gymeradwyo fframwaith(iau) rheoleiddio/newidiadau i Amodau gan gynnwys:

- Newidiadau sylweddol i'r Amodau Cydnabod Safonol a'r Meini Prawf Cydnabod

Gellir nodi newidiadau i'r fframwaith/amodau rheoleiddio nad ydynt yn cael eu hystyried yn arwyddocaol ac nid o reidrwydd eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo.

7. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Rheoleiddio, Polisi a Goruchwylio Safonau yr hawl i gymeradwyo penderfyniadau i roi cosbau ariannol.

8. Y Pwyllgor sydd i benderfynu ar unrhyw beth newydd, dadleuol neu o arwyddocâd cenedlaethol arbennig y mae angen i'r Bwrdd ei gymeradwyo a dylai hefyd adrodd arno i Lywodraeth Cymru.

Aelodaeth a Phresenoldeb

9. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at chwe aelod o'r Bwrdd, gan gynnwys y Prif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru.

10. Penodir aelodau'r Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd sy'n cadw'r hawl, o dan gynllun dirprwyo'r Bwrdd, i ychwanegu neu ddiswyddo aelodau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

11. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Reoleiddio yn bresennol yn y pwyllgor ond ni fydd yn aelod o'r pwyllgor. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i aelodau eraill o staff neu gynghorwyr allanol fod yn bresennol o bryd i'w gilydd i gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau. Gellir cyfethol cynghorydd cyfreithiol i'r pwyllgor, os oes angen, yn ychwanegol at ei aelodaeth arferol.

12. Y **cworwm** ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor fydd tri aelod.

Cefnogaeth

13. **Cefnogir** y pwyllgor gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a fydd yn brif gyswllt y pwyllgor â'r sefydliad, yn gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth, yn hwyluso sefydlu'r pwyllgor, ac yn darparu cyngor a gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor (yn enwedig mewn perthynas â llywodraethu'r sefydliad) mewn cyfarfodydd a rhyngddynt, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol ac arbennig.

Modus Operandi

14. Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau **fel y bo'n briodol** gan staff Gweithredol y sefydliad. Bydd yn adrodd i'r Bwrdd drwy ei gofnodion (a gyflwynir gan y Cadeirydd i'r Bwrdd), ac adroddiadau rheolaidd.

15. Bydd y Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod hyd at **4 gwaith y flwyddyn** mewn modd amserol. Gall y Pwyllgor weithredu a chyfarfod y tu allan i'r Pwyllgor ffurfiol lle bo hynny'n briodol i gyflawni ei fusnes.

16. Pan fo'r pwyllgor yn gweithredu mewn perthynas â phrosesau gorfodi, bydd argymhellion y pwyllgor hwn, a chymeradwyaeth y Bwrdd ohonynt, yn destun apêl gan bersonau yr effeithir arnynt a byddant yn cael eu hadolygu gan adolygydd annibynnol pan fydd galw am adolygiad o'r fath ac yn unol â'r polisi perthnasol.

Tachwedd 2022